

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 5 MAI 2021

Yn bresennol:	Yr Is-Gadeirydd Hefin Jones
Y Cynghorwyr:	Enid Roberts, Keith O'Brien, Idwal Williams, Dewi Williams, Elfed Jones
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol), Eirian Humphreys (Clerc)
Ymddiheuriadau:	Annest Smith, A H Jones, R Davies

2156 - Ethol Swyddogion

Cadeirydd – Hefin Jones

Is-gadeirydd – Elfed Jones

2157 – asesiad risg a polisiau, rheolau sefydlog, rheolau ariannol – wedi eu diweddarau, i'w llofnodi gan y cadeirydd

2158 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2021.

2159 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) – Garej Lôn –Yn y mis diwethaf mae y perchennog wedi bod yn gweithio ar geir, mae olew ar hyd y ffordd, mae yn parcio ceir ar ben yr olew i drïo ei guddio ond yn ystod glaw mae yn arllwys i'r system ddwr. Cysylltu a Cyfoeth Naturiol ynglyn ac adran briffyrdd CG. Hefyd gwahodd yr Heddlu i gyfarfod i drafod ymhellach.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe a Gardd y Ddraig – bu i Keith O'Brien gyfarfod ag Angharad Rayner a Gerallt Williams, mae dwy ardd ar safle yr atomfa wedi ei rhestru – hyn yn cynnwys gardd Sylvia Crowe. Bu i'r Cyngor wneud gwaith i symud yr ardd i Fryn y Gofeb flynyddoedd yn ol. Pryderon ynglyn a chyflwr y lloches a'i symud i Fryn y Gofeb, cynnigwyd adeiladu adeilad newydd. Gerall Williams am fynd yn ol i edrych mewn i adeiladu lloches newydd yn lle. Cynnig bod draig (chwarter maint a'r un o'r atomfa) yn cael ei osod ar y tir. Costau tua £70,000-£100,000 ar y pryd, cytunodd y Cyngor roi cyfraniad o £1,000 ar y pryd ond costau wedi newid erbyn heddiw, gofynnwyd y cwestiwn os byddai mwy o gyfraniad gan y Cyngor yn ol costau newydd. Edrych yn addawol ar y cyd. Bydd adroddiad pellach gan Angharad a Gerallt i ddilyn yn cynnwys costau. I'w gadw ar y cofnodion.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Aros am yr adroddiad gan y Llywodraeth. Sefyllfa dal yn beryg ofnadwy. Angen cael manylion cyswllt priodol at gyfer y man cyswllt yn y Llywodraeth i ofyn am gopi o'r

adroddiad. Mae y Cynghorydd Elfed Roberts am gysylltu a'r adran briffyrdd.

1954 (1) Cae Chwarae Stesion – Angen edrych ar y fainc yn y gornel, lle dringo angen ei drin yn cynnwys newid coedyn a cau bwlch, chwynnu y teils du o dan draed – gosod tywod o gwmpas yr ochr. Angen polyn sefyll newydd gan ei fod wedi pydru, seti newydd ir sigleni a thrwshio y ffens. Cael 3 pris gan gontractwyr lleol am y gwaith i gyd.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – (gweler 2138) – Ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd ymlaen ar y funud i gesio cael arian at y brosiect yma. Mae hefyd adroddiad gan bwyllgor y neuadd gyhoeddus.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi siarad gyda Dylan Wyn Jones, sydd am ddod i drafod ymhellach ag ef yn mis Ionawr.

2068 (1) Deffibrilwr – cytunwyd derbyn cytundeb BT ynglyn a blwch ffon Stesion. Cytundeb angen ei yrru nol gyda 'peppercorn rent' o £1. Trafodwyd gosod plac er cof am Islyn Griffiths gan fod ei deulu wedi cyfrannu tuag at y gost.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Cwyn swyddogol wedi ei dderbyn gan yr Ombwdsman ynglyn a gwrthod claddu person yn mynwent Pen Cefn. Cytunwyd derbyn y datrysiad sydd yn cael ei gynnig gan yr Ombwdsman. Angen sefydlu polisi cwyno. Edrych mewn i fodelau gan Un Llais Cymru i wneud hyn ac adolygu rheolau y fynwent yn flynyddol. Cynnig trefnu cyfarfod arbennig ar gyfer y mater hwn. Cyfarfod i'w drefnu at 17th o Fawrth. Llythyr wedi ei ddrafftio fel ymddiheuriad drwy'r post i Dr Jones, i'w arwyddo gan yr is-gadeirydd, copi er gwybodaeth i'r Ombwdsmon. Is-bwyllgor i'w drefnu at 21 o Ebrill ym mynwent Pencefn am 6:30yh. Gallai trafodaeth ynglyn a prynnu mwy o dir ddatrys y broblem. Rheolau Llanuwchllyn am eu mabwysiadu – cysylltu a Lis Puw o Cyngor Llanuwchllyn i ofyn caniatad i'w mabwysiadu. Gofynion yr ombwdsmon – llythyr wedi ei yrru i Dr Jones.

2085 (3) Llys Ednowain – I'w gadw ar y cofnodion.

2085 (6) – Baw Cwn – Cytunwyd gofyn wrth Cyngor Gwynedd am gost am fin newydd yn Fron Galed. Problem hefyd yn cae chwarae Cefn Gwyn a gwagio y baw yn bin y cae chwarae. Bin baw hefyd yn Cefn Gwyn? Faint o gost i gael nhw a wedyn faint i'w gwagio nhw.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol – e-bost gan Dylan Wynn Jones o Gyngor Gwynedd yn nodi nad oes gan y Cyngor y pŵer i orfodi yn erbyn parcio ar y palmant a fod y pŵer hyn gyda'r heddlu. Yr heddlu wedi cynghori o'r blaen nad oes unrhyw beth allent wneud a mai Cyngor Gwynedd ddylai osod gwaharddiadau. Dylan wedi gofyn i'r uned barcio asesu y safle – cytunwyd dilyn i fyny a Dylan.

2092 (6) Llysiâu'r Dial (Japanese Knotweed) – Ail gysylltu Cyfoeth Naturiol. Yn tyfu yn Is Law'r Coed hefyd. Ymchwiliad i gefn Pen y Garreg a chefn Y Fron – gofyn beth yw y polisi ynglyn a eiddo preifat. Neb yn eiddo arno - Islaw'r Coed OS702373. Cyfoeth naturiol wedi nodi am Is Law'r Coed ond wedi ei gyfeirio ymhellach ynglyn a tir Pen y Garreg.

2099 (6) Marciau Gwyn – Cyngor Gwynedd wedi ateb yn nodi fod cais wedi ei yrru at gontractwyr allanol i adnewyddu y marciau yn y pentref a mae disgwyl iddynt fod nol yn yr ardal erbyn diwedd Ionawr os bydd y tywydd yn caniatáu. Dal angen marciau gwyn trwy y pentref i gyd. I gysylltu a Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt fanylu ar faes parcio y feddygfa a Bryn Glas. Dilyn fyny ar hyn.

2107 (1) Trafnidiaeth Ysgol y Berwyn – Angen i rieni gael gwybod nad yw trafndiaeth yn cael ei ariannu.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Y pwynt godwyd yn y dechrau oedd bod gorfodi plentyn fynd i ddalgylch wahanol ar ol gadael ysgol gynradd. Y Cynghorydd Anest Smith am edrych dros e-bost diwethaf Cyngor Gwynedd.

2107 (5) Binau y Pentref – yn gorlifo – cynnig rhoi arwydd ar finiau cyhoeddus i ddweud nad ydy nhw ar gyfer defnydd personol a ffonio Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt eu gwagio. Baw ci bellach ar y llwybr. Gofyn am arwydd ar y bin/os oes ganddynt sticeri. Binau i weld wedi eu gwagio ond bosib bod bin cae chwarae Cefn Gwyn yn dod o dan adran caeau chwarae ac efallai mai dyna pam ei fod yn cael ei fethu.

2113 (1) Golau Stryd wrth y Toiledau Cyhoeddus – y golau wedi ei drwsio ond dim llawer o olau yn dod ohono mewn cymhariaeth a'r rhai eraill – i'w gyfeirio at Cyngor Gwynedd. Y polion golau i fod yn adlewyrchu cefndir amaethyddol Traws hefo siap ffon bugail – mae Cyngor Gwynedd wedi newid y golau i un sydd yn hollol wahanol i'r goleuadau eraill sydd rwan ddim yr un fath ar lleill, mae wedi colli cymeriad beth wnaeth y Cyngor Cymuned ofyn a chytuno hefo CG flynyddoedd yn ol. Cafodd arian grant ei wario yn gwneud y sgwar a mae y golau newydd wedi mynd yn groes i bob dymuniad a gytunwyd ar flynyddoedd yn ol.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pantglas – Cyngor Gwynedd yn nodi fod y gwaith wedi ei wneud ond nodwyd fod y ffordd bellach yn beryg yn dilyn y gwaith. Adrian Williams wedi adrodd y byddent yn asesu ac yn dod nol gyda eu sylwadau. Mwy o broblemau bellach a mae y bont angen gwaith. Y Cynghorydd Anest Smith am gasglu lluniau gyda sylwadau.

2126 (3) Binau Halen – Stryd Ardudwy a Stryd Ty Llwyd wedi eu ychwanegu at restr ail-flaenoriaeth graeanu. Y maes parcio wedi ei gyfeirio at yr adran barcio gan nad yw'r adran briffyrdd yn delio a meysydd parcio. Cwyno nad oedd gritter wedi bod heibio a fod trigolion ddim yn hapus fod Cyngor Gwynedd dal i gyfeirio bobol nol at y Cyngor Cymuned a fod Cyngor Trawsfynydd heb gytuno i gymud cyfrifoldeb dros graeanu. Cytunwyd gyrru e-bost i atgoffa CG. Y Cynghorydd Elfed Roberts am ei godi a Cyngor Gwynedd.

2128 (2) Cyffordd Maes Parcio – Y Cynghorydd Elfed Roberts am ei drafod gyda Dylan Wyn Jones pan mae yn trafod yr A470. Cytunwyd gyrru at Martin Williams o Gyngor Gwynedd yn awgrymu gostwng lefel y clawdd i wella gweledrwydd. Y Cynghorydd Elfed Roberts am gysylltu a Dylan Jones.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor - car yn yr un fan ers mis Tachwedd yn blocio y stryd gerfn nes bod neb yn gallu mynd a cerbyd yno yn cynnwys dynion glo a cwmniau olew gwresogi. Gofyn i ADRA be sy'n digwydd hefo y gwyn a ein bod wedi ein siomi gyda y sefyllfa fel ag y mae. Ysgrifennu at prif weithredwr CG ac ADRA.

2160 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

2161 - MATERION IW TRAFOD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

1. Ffens gyferbyn cae chwarae yr ysgol/cae Dolwen – wedi dod yn rhydd ar yn cylchau, angen slyw i'w gyfeirio at CG.
2. Bryn y Gofeb – cae o dan Bryn y Gofeb a'r wal derfyn – bylchau yn y wal a peryg iddo ddymchwel. Pris i drwsho y wal – pris i'w gael am y gwaith hyn ac ambell i waith arall sydd angen ei wneud.
3. Llwybr beics o Cefngellgwm i Brongolau – cangheni coed a mieri a rheiliau pren yn beryg. Angen sylw gan CG.
4. Cof Golofn Hedd Wyn – Robert Williams am edrych arno er mwyn rhoi pris am y gwaith. Y ddau brif faen ac y gof golofn yn iawn, mae am bacio y dan y darnau hynny a gwneud y wynebedd i edrych yn daclus. Cytunwyd.

5. Railings a tair adwy angen eu peintio yn gardd Salem. Hefyd gardd Bryn Glas ar y ffens cyn i dyfiant ddechrau yn ol. Ceisio cael 3 pris erbyn y cyfarfod nesaf. 3 pris: 1 sydd wedi dod yn ol sef Alan Tomos – Gardd Salem a Bryn Glas - £578, posib fod ei bris yn anghywir gan ei fod wedi cam-ddeall mai Bryn y Gofeb oedd angen yn lle Bryn Glas – ail-gysylltu am gywiriad. Pris newydd o £548 ond bydd tua mis Mehefin-Gorffennaf arno yn gallu gwneud y gwaith.
- 6.
7. Arwydd llwybr cyhoeddus wedi cuddio o ffordd Tyn Coed – angen cysylltu ag adran llwybrau Cyngor Gwynedd.
8. Pencefn – ymgwymerwr heb dalu anfoneb. Llythyr i’w ddrafftio yn dweud fod y Cyngor am gymeryd camau pellach os na fydd yn cael ei dalu. Y swyddog ariannol am gysylltu a’r ymgwymerwr i adrodd hyn hefyd. Tystysgrif claddu heb ei dderbyn chwaith sydd yn mynd yn erbyn rheolau ymgwymerwyr. Gofyn wrth y Cyngorydd Anest Smith am gyngor pellach.
9. Llwybr o Stesion i Flaen Cwm – gofyn am farn y ffermwr am y darn o dir sydd ddim yn bosib cerdded arno. Aros am adborth Elfed Jones. Elfed Jones wedi cysylltu a’r Parc am eu barn – y Parc yn gwneud gwaith yma ac Elfed am gadw y Cyngor gyda unrhyw newidiad.
10. Y Dref Werdd – wedi cal grant gwn hwb cymunedol i greu twnel yn gardd Salem. Angen cael rhestr waith a phrisiau. Cwestiwn am faint o uchder gallai y peiriant fyd mynd ir Capel. Y Dref Werdd isio gosod plac pan fydd y gwaith wedi ei wneud. Leoliad i’w gytuno yn agos at yr amser.
11. Offer hel sbwriel – syniad ei gael ar gyfer y Cyngor Cymuned. Posib cael 10 cit ond angen gwneud cytundeb fod y Cyngor yn cadw yr offer a fod pobl yn cysylltu a’r Cyngor i’w ddefnyddio – byddai hyn efallai yn ormod o bwysau ar y Cyngor. Sbwriel yn dechrau hel eto yn y pentref – cysylltu a y Dref Werdd i gynnal noson hel sbwriel arall. Bwriad yw – 10fed o Fai – bod criw cymunedol yn hel sbwriel – cyfarfod am 10 o gloch yn maes parcio os oes unrhyw un eisiau ymuno

2162 – Gohebiaeth

1. CG – gwaith ffordd yn y pentref
2. Cyngorydd Derec Hopkins wedi ildio ei sedd ar y Cyngor – gyrru llythyr o ddiolch iddo am ei waith. Angen dilyn y broses sywddogol gyda CG. Sedd wag ar y Cyngor.

2163 – adroddiad ariannol – Cytunwyd a derbynwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y swyddog ariannol.

2164 – Ffurflen Flynyddol - Cytunwyd a derbynwyd y ffurflen flynyddol.

2165 - Materion i’w Trafod ar y Pryd

1. Llys Dewi – coeden yn tyfu i’r ffordd – Elfed Roberts am ei gyfeirio i CG.
2. Defaid Bryn Ysguboriau – yn creu difrod a llanast yn y pentref. Waliau y fferm wedi chwalu ymhob man ac y defaid yn dod o bob cyfeiriad. Y cyngorydd Dewi Williams am ymholi ag undebau ffermio rhag ofn fod posib

gwneud unrhyw beth.

2166 – Cyfarfodydd yn ystod y Mis

Llywodraethwyr yr Ysgol – heriol iawn i'r athrawon, cydnabyddiaeth wedi dod o CG fod y brif athrawes yn gwneud gwaith rhagorol. Gwybodaeth gan yr NSPCC am beth ddylai athrawon/llywodraethwyr fod yn ymwybodol ohono.

Is-bwyllgor Mynwentydd – wedi edrych ar llain o dir i benderfynnu ar faint o dir i fynd at y ffermwr i ofyn amdano. 2 opsiwn – o'r top i'r gwaelod; or canol fyny at giat Stryd Ardudwy; neu y darn tir ar y gwaelod a drafodwyd gyda Bryn Jones. Hefyd darn ar dop ochr chwith y fynwent ble roedd offer yn cael ei gadw yn y gorffennol – posib bod lle i 6-8 bedd yn y fan yma os dymchwel y cwt. Bydd angen symud y wal i adlewyrchu y terfyn newydd. Cytunwyd mynd am y darn mwyaf er mwyn gallu gwneud y mwyaf ohono. Cytunwyd i'r cadeirydd drafod y darn mwyaf gyda y perchennog ac adrodd nol i'r Cyngor gyda y prisiau a'r amodau. Chwyn yn tyfu ble roedd yr hen giat.

CYFARFOD NESAF – 2 Mehefin 2021

Is-Bwyllgor Llwybrau – Ebrill, Gorffennaf, Hydref – Bryn y Gofeb 6:30yh